



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 817 (Cy. 179)

2020 No. 817 (W. 179)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 3) 2020**

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel)
(Wales) (Amendment) (No. 3)
Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations"). The International Travel Regulations have been previously amended by:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163); a
 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177).
- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 (S.I. 2020/595) (W. 136);
 - the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/714) (W. 160);
 - the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/726) (W. 163); and
 - the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/804) (W. 177).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemtio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu Estonia, Latfia, Saint Vincent a'r Grenadines, Slofacia a Slofenia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd fel gwledydd esempt. Mae'r rheoliadau hyn yn ymdrin â meysydd a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 3 ar weithredu'r gofynion i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 yn gymwys pan fo person eisoes yng Nghymru ac yn ddarostyngedig i ofyniad ynysu ar y pwynt y mae'r diwygiadau yn rheoliad 3 yn cael effaith.

Mewn achos o'r fath, mae rheoliad 4 yn cadarnhau nad yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 3 at Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyfyngu ar y gofyniad i'r person ynysu; bydd y person yn dal i orfod ynysu tan ddiwedd y cyfnod ynysu fel y'i pennwyd yn wreiddiol pan gyrhaeddodd y person Gymru.

Mae rheoliad 5 yn gymwys pan fo person yn cyrraedd Cymru ar 31 Gorffennaf 2020 neu wedi hynny ar ôl bod yn un o'r gwledydd a restrir yn rheoliad 3 yn ystod y 14 o ddiwrnodau cyn iddo gyrraedd Cymru.

Mewn achos o'r fath, at ddiben pennu a yw'r person yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn ynghylch a yw'r person wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, i'w bennu drwy gyfeirio at statws y wlad pan oedd y person yno ddiwethaf.

International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with the Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Regulation 3 of these Regulations amends the International Travel Regulations to add Estonia, Latvia, Saint Vincent and the Grenadines, Slovakia and Slovenia to the Schedule 3 list of exempt countries and territories.

Regulations 4 and 5 make transitional provision in connection with the change in the countries' status as exempt countries. These regulations address potential areas of doubt in terms of the effect of the amendments made by regulation 3 on the operation of requirements to isolate imposed by the International Travel Regulations.

Regulation 4 applies where a person is already in Wales and subject to an isolation requirement at the point the amendments in regulation 3 take effect.

In such a case, regulation 4 confirms that the addition of the countries listed in regulation 3 to Schedule 3 to the International Travel Regulations does not curtail the person's isolation requirement; the person will still have to isolate until the end of the isolation period as initially determined when the person arrived in Wales.

Regulation 5 applies where a person arrives in Wales on or after 31 July 2020 after having been in one of the countries listed in regulation 3 in the 14 days prior to arriving in Wales.

In such a case, for the purpose of determining whether the person is subject to an isolation requirement under the International Travel Regulations, the question of whether the person arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory is to be determined by reference to the status of the country when the person was there last.

Mae hyn yn golygu os yw person yn gadael gwlad a restrir yn rheoliad 3 cyn 31 Gorffennaf 2020, ac yna'n cyrraedd Cymru o fewn 14 o ddiwrnodau (a hynny ar 31 Gorffennaf 2020 neu wedi hynny), caiff y person ei drin, at ddibenion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, fel pe bai wedi cyrraedd o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

Mae rheoliad 6 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Lwcsembwrg o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â'r newid yn statws Lwcsembwrg. Os yw person yn cyrraedd Cymru ar 31 Gorffennaf 2020 neu wedi hynny ar ôl bod yn Lwcsembwrg ddiwethaf cyn y dyddiad hwnnw ac o fewn 14 o ddiwrnodau o gyrraedd Cymru, mae'r person i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath. Felly, gall y person fod yn ddarostyngedig i ofynion ynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 8 yn ychwanegu digwyddiadau a gornestau pellach at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Yn unol â rheoliad 10(4) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, caniateir i berson y byddai fel arall yn ofynnol iddo ynysu yn unol â rheoliad 7 neu 8 o'r Rheoliadau hynny adael y fangre y mae'n ynysu ynddi i gystadlu etc. yn y digwyddiadau chwaraeon hyn.

Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

This means that if a person leaves a country listed in regulation 3 before 31 July 2020, then arrives in Wales within 14 days (and on or after 31 July 2020), the person will, for the purposes of the International Travel Regulations, be treated as having arrived from, or having been in, a non-exempt country or territory.

Regulation 6 amends the International Travel Regulations to remove Luxembourg from the list of exempt countries and territories.

Regulation 7 makes transitional provision relating to Luxembourg's change of status. If a person arrives in Wales on or after 31 July 2020 having last been in Luxembourg before that date and within 14 days of arriving in Wales, the person is to be treated for the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations as having arrived from, or having been in, a non-exempt country or territory. The person may, therefore, be subject to isolation requirements under the International Travel Regulations.

Regulation 8 adds further events and fixtures to the list of sporting events in Schedule 4 to the International Travel Regulations.

In accordance with regulation 10(4) of the International Travel Regulations, a person that would otherwise be required to isolate in accordance with regulation 7 or 8 of those Regulations may leave the premises at which they are isolating in order to compete etc. at these sporting events.

Regulation 9 of these Regulations corrects the definition of a "sewerage licensee" in Schedule 2 to the International Travel Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 817 (Cy. 179)

2020 No. 817 (W. 179)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 3) 2020**

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel)
(Wales) (Amendment) (No. 3)
Regulations 2020**

Gwnaed am 5.35 p.m. ar 30 Gorffennaf 2020

Made at 5.35 p.m. on 30 July 2020

Yn dod i rym am 11.59 p.m. ar 30 Gorffennaf 2020

Coming into force at 11.59 p.m. on 30 July 2020

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru 31 Gorffennaf 2020

Laid before Senedd Cymru 31 July 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

Enwi, dod i rym a dehongli

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 11.59 p.m. ar 30 Gorffennaf 2020.

(2) These Regulations come into force at 11.59 p.m. on 30 July 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(2).

(3) In these Regulations, the "International Travel Regulations" means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(2).

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(2) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163) ac O.S. 2020/804 (Cy. 177).

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

(2) S.I. 2020/574 (W. 132) as amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163) and S.I. 2020/804 (W. 177).

Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

2. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio yn unol a rheoliadau 3, 6, 8 a 9.

Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

3. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Estonia”

“Latfia”

“Saint Vincent a'r Grenadines”

“Slofacia”

“Slofenia”.

Darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â rheoliad 3

4.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 31 Gorffennaf 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi cyrraedd Cymru o wlad a restrir yn rheoliad 3, neu ar ôl bod mewn gwlad a restrir yn y rheoliad hwnnw, a
- (b) fo diwrnod olaf ynysiad P ar 31 Gorffennaf 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 3 at Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i “gofyniad i ynysu” yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

5.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru ar 31 Gorffennaf 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 3 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

Amendments to the International Travel Regulations

2. The International Travel Regulations are amended in accordance with regulations 3, 6, 8 and 9.

Additions to the list of exempt countries and territories

3. In Part 1 of Schedule 3 (exempt countries and territories outside the common travel area), at the appropriate places insert—

“Estonia”

“Latvia”

“Saint Vincent and the Grenadines”

“Slovakia”

“Slovenia”.

Transitional provisions relating to regulation 3

4.—(1) Paragraph (2) applies where, immediately before 31 July 2020—

- (a) a person (“P”) was subject to an isolation requirement by virtue of having arrived in Wales from, or having been in, a country listed in regulation 3, and
- (b) P's last day of isolation is 31 July 2020 or a day after that day.

(2) The addition of the countries listed in regulation 3 to Schedule 3 to the International Travel Regulations does not affect the isolation requirement as it applies to P, nor affect how P's last day of isolation is determined under the International Travel Regulations.

(3) In this regulation, “isolation requirement” has the meaning given by regulation 10(2) of the International Travel Regulations; and references to P's last day of isolation are to be interpreted in accordance with regulation 12 of those Regulations.

5.—(1) Paragraph (2) applies where a person (“P”)—

- (a) arrives in Wales on or after 31 July 2020, and
- (b) was in a country listed in regulation 3 within the period of 14 days ending with the day of P's arrival in Wales.

(2) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran pa un a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, mewn perthynas â gwlad a restrir yn rheoliad 3, i'w bennu drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad yn wlad nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad pan fo P yn cyrraedd Cymru).

Hepgor Lwcsembwrg o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

6. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer "Lwcsembwrg".

Darpariaeth drosiannol yn ymwneud â Lwcsembwrg

7.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

- (a) yn cyrraedd Cymru ar 31 Gorffennaf 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod yn Lwcsembwrg ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn 31 Gorffennaf 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn Lwcsembwrg, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig

8.—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2, yn lle "— gemau prawf." rhodder—

“—

- (a) gemau prawf;
- (b) gemau rhyngwladol undydd;
- (c) gemau T20 rhyngwladol.”

(3) Ym mharagraff 4, yn lle "— gornestau Cynghrair Pencampwyr UEFA a Chynghrair Ewropa UEFA." rhodder—

“—

(2) For the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations, the question of whether P has arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory is, in relation to a country listed in regulation 3, to be determined by reference to whether the country was a non-exempt country when P was last there (and not by reference to the country's status upon P's arrival in Wales).

Removal of Luxembourg from the list of exempt countries and territories

6. In Part 1 of Schedule 3 (exempt countries and territories outside the common travel area), omit "Luxembourg".

Transitional provision relating to Luxembourg

7.—(1) Paragraph (2) applies where a person ("P")—

- (a) arrives in Wales on or after 31 July 2020, and
- (b) was last in Luxembourg—
 - (i) within the period of 14 days ending with the day of P's arrival in Wales, and
 - (ii) before 31 July 2020.

(2) P is, by virtue of having been in Luxembourg, to be treated for the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations as having arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory.

Additions to the list of specified sporting events

8.—(1) Schedule 4 (specified sporting events) is amended as follows.

(2) In paragraph 2, for "— test matches." substitute—

“—

- (a) test matches;
- (b) one day international matches;
- (c) international T20 matches.”

(3) In paragraph 4, for "— UEFA Champions League and Europa League fixtures." substitute—

“—

- (a) gornestau Cynghrair Pencampwyr UEFA a Chynghrair Ewropa UEFA;
- (b) gornestau rhyngwladol.”
- (4) Ym mharagraff 5, ar y diwedd mewnosoder—
- “(l) Cylchdaith Golff Ewrop – Her Iwerddon.”
- (5) Ym mharagraff 6, ar y diwedd mewnosoder—
- “(e) Gŵyl St Leger;
- (f) Gŵyl Pencampwyr y Dyfodol Dubai;
- (g) Diwrnod Pencampwyr Prydain QIPCO;
- (h) Cyfarfod The Showcase, Cheltenham.”
- (6) Ym mharagraff 9, yn lle “— gornestau rhyngwladol” rhodder—
- “—
- (a) gornestau rhyngwladol;
- (b) gornestau Clybiau Rygbi Proffesiynol Ewrop;
- (c) gornestau Guinness PRO14.”
- (7) Ar y diwedd mewnosoder—
- “**11.** Athletau — Marathon Llundain.
- 12.** Hoci maes — gornestau Cynghrair FIH Pro.
- 13.** Tennis — Rowndiau Terfynol Cylchdaith ATP.”

Ystyr “trwyddedai carthffosiaeth”

9. Yn Rhan 2 o Atodlen 2 (personau nad yw’n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 7 nac 8), ym mharagraff 17(2)(b), yn lle “mae i “trwyddedai carthffosiaeth” yr ystyr a roddir i “sewerage licensee” yn adran 17BA(6) a 219(1)” rhodder “ystyr “trwyddedai carthffosiaeth” yw person sy’n ddeiliad trwydded carthffosiaeth o dan adran 17BA(1)”.

- (a) UEFA Champions League and Europa League fixtures;
- (b) international fixtures.”
- (4) In paragraph 5, at the end insert—
- “(l) European Tour – Irish Challenge.”
- (5) In paragraph 6, at the end insert—
- “(e) St Leger Festival;
- (f) Dubai Future Champions Festival;
- (g) QIPCO British Champions Day;
- (h) The Showcase meeting, Cheltenham.”
- (6) In paragraph 9, for “— international fixtures.” substitute—
- “—
- (a) international fixtures;
- (b) European Professional Club Rugby fixtures;
- (c) Guinness PRO14 fixtures.”
- (7) At the end insert—
- “**11.** Athletics — London Marathon.
- 12.** Field hockey — FIH Pro League fixtures.
- 13.** Tennis — ATP Tour Finals.”

Meaning of “sewerage licensee”

9. In Part 2 of Schedule 2 (persons not required to comply with regulations 7 or 8), in paragraph 17(2)(b), for “has the meaning given in section 17BA(6) and 219(1)” substitute “means a person who is the holder of a sewerage licence under section 17BA(1)”.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 5.35 p.m. ar 30 Gorffennaf 2020

©[©]Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

The First Minister, one of the Welsh Ministers
At 5.35 p.m. on 30 July 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(1) Mewnosodwyd adran 17BA gan adran 4(1) o Ddeddf Dŵr 2014 (p. 21).

(1) Section 17BA was inserted by section 4(1) of the Water Act 2014 (c. 21).

£6.90

W202007301008 08/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/817>

ISBN 978-0-348-20596-1



9 780348 205961